



Canllaw Rhan Amser 2022 - 2023

LLWYDDWCH

>> YN COLEG GWENT



ASTUDIO RHAN AMSER

» YN COLEG GWENT

P'un a ydych eisiau dysgu crefft newydd, troi diddordeb yn broffesiwn neu roi hwb i yrfa newydd, gallwch wireddu'r freuddwyd yn Coleg Gwent.

Mae astudio'n rhan amser yn un o golegau mwyaf blaenllaw Cymru yn golygu y gallwch ddewis o ystod sylweddol o gyrsgau.

Mae dosbarthiadau ar gael yn y boreau, y prynhawniau a gyda'r nosau trwy gydol y flwyddyn er mwyn ffitio o amgylch eich ffordd o fyw a'ch ymrwymadau presennol.

Fel un o'r colegau mwyaf yng Nghymru, gyda chymuned o dros 16,000 o ddysgwyr, rydym yn ymroddedig i'ch helpu i gyflawni eich amcanion. Gyda chysylltiadau diwydiant cryf a phrifysgolion partner mae astudio gyda Coleg Gwent yn rhoi'r cyfle i chi feithrin rhwydweithiau proffesiynol a gwella eich cyfleoedd proffesiynol.

Nid yw'r coleg ar gyfer unigolion 16 oed yn unig, rydym yn croesawu myfyrwyr o bob math ac o bob oedran; tydi hi byth yn rhy hwyr i lwyddo gyda ni yn Coleg Gwent.

CYSYLLTWCH Â NI

Cysylltwch â'n tîm Recriwtio Myfyrwyr cyfeillgar i gael gwybod mwy am ein cyrsiau. Gallwn eich helpu gyda chwestiynau ynghylch cyrsiau a therfynau amser allweddol, cymorth dysgu ychwanegol, gwybodaeth ynghylch cyllid, ein campysau a'n diwrnodau agored.

» HELO@COLEGGWENT.AC.UK

» 01495 333777

(Croesawn alwadau yn Gymraeg).

SUT I WNEUD CAIS

Mae gwneud cais am gwrs rhan-amser yn Coleg Gwent yn syml iawn. Edrychwch ar y cyrsiau sy'n mynd â'ch bryd yn y canllaw, yna gwnewch gais drwy ein gwefan.

» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/RHANAMSER

Neu i dalu ac ymrestru dros y ffôn:

» 01495 333777

(Croesawn alwadau yn Gymraeg).

Gallwch hefyd siarad â thiworiaid am gyrsgau rhan-amser yn ein digwyddiadau agored...

Cofrestrwch ar-lein:

» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/AGORED



CYNNWYS

- 2 Croeso
- 4 Ein Campysau
- 6 Cyfrifon Dysgu Personol
- 7 Rhan Amser Estynedig
- 8 Cyrsiau lefel prifysgol
- 9 Canllawiau i Gymwysterau
- 10 Cyfrifeg, Busnes a Rheolaeth
- 12 Gofal seiliedig ar y Tir, Ceffylau ac Anifeiliaid
- 14 Celf a Dylunio, y Cyfryngau, y Celfyddydau Perfformio a Ffotograffiaeth
- 16 Arlwy a Lletygarwch
- 18 Cyfrifiadura a Thechnoleg Ddigidol
- 20 Adeiladu
- 22 Hyfforddiant ac Addysg
- 24 Peirianeg a Modurol
- 26 Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill
- 27 TGAU
- 28 Trin Gwallt a Therapi Harddwch
- 30 Iechyd a Diogelwch, Cwnsela a Gofal
- 32 Sgiliau Byw'n Annibynnol
- 33 Llwybr at Radd neu Brifysgol (Mynediad i Addysg Uwch)
- 34 Chwaraeon, Ffitrwydd ac Iechyd
- 36 Cyflogwyr

**RYDYM YN YCHWANEGU
CYRSIAU RHAN AMSER
NEWYDD O HYD - DALIWCH
I EDRYCH AR EIN GWEFAN
AM DDIWEDDARIADAU!**



EIN CAMPYSAU

EISIAU GWELD MWY?

Dewch ar daith rithwir o amgylch ein campysau ar

» [VIRTUAL.COLEGGWENT.AC.UK](https://www.coleggwent.ac.uk)

Fel opsiwn amgen, dewch i ymweld â ni yn un o'n digwyddiadau ar y campws a gynhelir drwy gydol y flwyddyn. Am restr lawn o ddyddiadau ac i gofrestru am le ewch i:

» [WWW.COLEGGWENT.AC.UK/AGORED](https://www.coleggwent.ac.uk/agored)



PARTH DYSGU TORFAEN

Ym mis Ionawr 2021, agorwyd ein campws bwrpasol newydd, sy'n cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau gwyb. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys neuadd berfformio, ystafelloedd cerddoriaeth a chyfryngau, stiwdio gelf, ardaloedd gweithio hyblyg a llyfrgell gyda'r holl adnoddau perthnasol

Mae'r campws wedi'i leoli yng nghanol Cwmbrân, dafliaid carreg o'r orsaf drenau, felly mae modd cyrraedd yno yn ddidrafferth gyda thrafnidiaeth gyhoeddus. Ar y campws mae maes parcio sy'n llai na 10 munud o'r M4.



CAMPWS BRYNBUGA

Mae ein campws gwledig ym Brynbuga yn gartref i'n cyrsiau amaethyddiaeth, chwaraeon, gwasanaethau hamdden a chyhoeddus. Wedi'i leoli yng nghanol cefn gwlad hardd ar gyrion tref hanesyddol Brynbuga, dyma'r campws i'r unigolion hynny sydd â diddordeb yn yr awyr agored.

Ymhlith y cyfleusterau ar y campws mae llyfrgell o'r radd flaenaf, caffi i'r myfyrwyr, fferm weithio 296 acer, canolfannau anifeiliaid a cheffylau, campfa wedi'i hailwampio a chyfleusterau addysg awyr agored. Gellir cyrraedd y campws yn ddidrafferth oddi ar draffordd yr M4, ac mae parcio am ddim ar gael yno. Mae'n lleoliad cyfleus ar gyfer nifer o drefi ar draws De Ddwyrain Cymru.



CAMPWS CROSSKEYS

Mae ein campws mwyaf, sef campws Crosskeys, yn cynnig amrywiaeth cyfoethog a diddorol o gyrsiau galwedigaethol ac academiaidd. Mae'n cynnwys theatr drawiadol ar gyfer y celfyddydau perfformio, bwyty hyfforddi sydd ar agor i'r cyhoedd, salonau trin gwallt a harddwch sydd hefyd yn agored i'r cyhoedd, offer gweithgynhyrchu sy'n cyrraedd safon y diwydiant a llyfrgell gydag ystafell gyfrifiaduron mhac, llyfrau a defnydd o gyfnodolion ar-lein.

Mae'r coleg wedi'i leoli drws nesaf i heol Risga yn Crosskeys. Mae'n ddewis poblogaidd i dysgwyr yn ardal Caerffili a thu hwnt. Mae'r ffordd i'r campws yn ddidrafferth, ac mae'n cynnig maes parcio am ddim a gorsafoedd bysiau cyfleus y tu allan i'r campws.



CAMPUS DINAS CASNEWYDD

Mae ein campws Dinas Casnewydd yn cynnig cyfleusterau gwych ac amrywiaeth eang o gyrsiau galwedigaethol ac academiaidd sy'n cyd-fynd â chyfleoedd gyrfaol yr ardal. Mae hyn yn cynnwys gweithdai peirianeg ac adeiladu gyda'r offer perthnasol, stiwdios celf, labordai gwyddoniaeth a salonau trin gwallt a harddwch, yn ogystal ag ystafell dechnoleg ddigidol arloesol.

Mae ein campws mewn lleoliad gwych. Mae ychydig funud i ffwrdd o ganol y ddinas, ac mae parcio am ddim ar gael ar y safle. I'r bobl hynny sy'n teithio o ardaloedd pellach, mae'r campws wyth munud i ffwrdd o'r M4.

PARTH DYSGU BLAENAU GWENT

Agorwyd Parth Dysgu Blaenau Gwent yn 2012, ac mae'n cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf. Mae atriwm agored o amgylch y campws, felly mae'n gwneud i bobl deimlo'n dda o'r eiliad maent yn cerdded drwy'r drysau. Cynigir cyrsiau ar gyfer amrywiaeth o ddiwydiannau, ac mae'r campws yn ymfalchïo mewn gweithdai adeiladu, bae chwaraeon modur, salonau trin gwallt a harddwch, ystafell olygu ar gyfer y cyfryngau, ac ystafelloedd cyfrifiaduron mac.

Mae Parth Dysgu Blaenau Gwent wedi'i leoli ychydig funud ar droed o orsaf drenau Tref Glynebwy, ac mae'n cysylltu â nifer o lwybrau teithio bws. Cewch hefyd barcio am ddim ger y campws.



CYFRIFON DYSGU PERSONOL

Mae Cyfrifon Dysgu Personol yn gyrsiau rhad ac am ddim sy'n rhoi'r sgiliau a'r cymwysterau i chi, y mae cyflogwyr yn dymuno eu gweld, gan roi cymorth i chi ddatblygu'ch gyrfa neu ei newid yn llwyr.

Wedi'u cyllido gan Lywodraeth Cymru, mae'r cyrsiau'n hyblyg a gellir eu haddasu o gwmpas eich ymrwymadau gwaith a chartref, gyda dewis o gyrsiau ar gampws, rhithiol ac e-ddysgu ar gael.



I WNEUD CAIS, MAE'N RHAID I CHI:

- ✓ **Fod mewn gwaith**
- ✓ **Yn ennill llai na £29,534 y flwyddyn**
- ✓ **Dros 19 oed**
- ✓ **Byw yng Nghymru**

MAE CDP AR GAEL YN:

- Peirianeg Modurol
- Busnes
- Cyfrifiadura Cwmwl
- Adeiladu
- Seiberddiogelwch
- Marchnata Digidol
- Gwasanaethau Ariannol
- Ynni Gwyrdd
- Iechyd a Diogelwch
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Hyfforddiant HGV / LGV
- TG a Rhwydweithio
- Peirianeg Fecanyddol a Thrydanol
- Rheoli Prosiectau
- Addysg
- Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth
- Chwaraeon a Ffitrwydd

RHAN AMSER ESTYNEDIG

Mae rhan amser yn mynd o nerth i nerth! Dewch i fanteisio ar astudio rhan amser wedi'i ariannu'n llawn gyda chwsr rhan amser estynedig. Gyda'r angen am 12 awr o astudiaeth yr wythnos ar gyfartaledd, mae'r cyrsiau hyn yn cynnig ffordd fforddiadwy o gwblhau'r cymhwyster sydd ei angen arnoch chi, gan weithio o amgylch ymrwymïadau presennol.

P'un a ydych allan o waith ar hyn o bryd neu'n awyddus i uwchsgilio eich gyrfa bresennol gallech fod yn gymwys ar gyfer cwrs estynedig rhan amser i'ch helpu i wireddu eich breuddwyd.

MAE'R CYRSIAU RHAN AMSER ESTYNEDIG CANLYNOL AR GAEL:

- Trin Gwallt a Therapi Harddwch
- Arlwy a Lletygarwch
- Adeiladu
- Hyfforddiant ac addysg
- Peirianeg a Modurol
- Gofal seiliedig ar y Tir, Ceffylau ac Anifeiliaid
- Chwaraeon, Ffitrwydd ac Iechyd



ADDYSG UWCH

>> CYMWYSTERAU LEFEL PRIFYSGOL

A wyddoch chi, gallech chi ennill cymhwyster prifysgol yn Coleg Gwent? Mae gennym nifer cynyddol o gyrsiau addysg uwch ar gael felly beth bynnag yw eich diddordebau, efallai bod gennym gurs i siwtia chi.

PAM ASTUDIO CYMHWYSTER PRIFYSGOL GYDA COLEG GWENT?

Drwy astudio'n lleol gallwch arbed arian ar deithio, llety yn ogystal â'ch ffioedd dysgu. Mae ffioedd ein cyrsiau'n is na'r rhan fwyaf o brifysgolion, a gallwch astudio o gwmpas eich ymrwymadau bywyd a gwaith yn ddi-drafferth.

Mae ein dosbarthiadau yn llai ac yn agosach na'r myafrif o prifysgolion arall, felly gallwch gael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnoch. Fel myfyriwr AU, gallech hefyd fod yn gymwys am gymorth ariannol a chymorthdaliadau i'ch helpu chi gyda chost astudio.

DDIM YN SICR A YDYCH CHI'N BODLONI'R GOFYNION?

Mae gofynion mynediad ynghlwm â chysiau Addysg Uwch, ond peidiwch â gadael i hynny eich rhwystro chi rhag mynd amdani. Rydym yn eich ystyried chi fel unigolyn, yn ystyried eich profiad bywyd a gwaith, yn ogystal â'ch cymwystrau blaenorol.



Gellir astudio llawer o'n cyrsiau lefel prifysgol yn rhan amser a gallech fod yn gymwys am gyllid tuag at eich costau astudio. Edrychwch ar ein cyrsiau ar Lefel 4 neu uwch yn y canllawiau rhan amser neu edrychwch ar gyrsiau llawn amser ar ein gwefan:

>> WWW.COLEGGWENT.AC.UK/AU

>> LLWYDDWCH MEWN PARTNERIAETH GYDA



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



CANLLAW I

» LEFELAU CYMHWYSTER

Yn ansicr pa gymhwyster ydych chi'n chwilio amdano neu ar ba lefel y dylech chi ddechrau? Dyma ganllaw hwylus i'ch helpu chi i ddeall y lefel astudio ar gyfer eich cyrsiau ac i'ch cynorthwyo chi i ddewis y cymhwyster cywir ar eich cyfer chi a'ch nodau.

Nid yw llawer o'n cyrsiau diddordebau a sgiliau ynghlwm â lefel astudio – eu diben yw addysgu sgiliau newydd i chi wrth i chi fwynhau, yn hytrach na chymhwyster proffesiynol.

LEFEL	CYMHWYSTER			LEFEL SWYDD
7	Gradd Meistr/Doethuriaeth		NVQ 5	Gweithiwr proffesiynol siartredig
6	Gradd Anrhydedd		Prentisiaeth Uwch NVQ 4	
5	Gradd sylfaen, HND	Diploma mewn Addysg Uwch		Gweithiwr proffesiynol ym maes rheoli
4	HNC	Tystysgrif Addysg Uwch		
3	Diploma Estynedig Lefel 3 Diploma Lefel 3 Diploma Atodol Lefel 3 Tystysgrif Lefel 3	3 Safon Uwch 2 Safon Uwch 1 Safon Uwch 1 Safon UG	Uwch Brentisiaeth NVQ 3	Technegydd uwch, Goruchwyliwr medrus
2	Diploma Lefel 2 Tystysgrif Estynedig Lefel 2 2 Tystysgrif Lefel 2	4 TGAU (A*-C) 3 TGAU (A*-C) 2 TGAU (A*-C)	Prentisiaeth NVQ 2	Gweithredydd lled-fedrus
1	Tystysgrif neu Diploma Lefel 1	TGAU (D-G)	Cynllun hyfforddiant NVQ 1	Gweithredydd
ENTRY	Sgiliau Sylfaenol/Sgiliau Bywyd			
	Dysgu galwedigaethol	Dysgu academiaidd	Dysgu seiliedig ar waith	

» LLWYDDWCH YN EICH CYMHWYSTER

CYFRIFEG, BUSNES A RHEOLAETH

Cyfoethogwch eich galluedd a gwybodaeth broffesiynol gydag un o'n cyrsiau cyfrifeg, busnes neu reoli.

Fel canolfan achrededig ar gyfer cymwysterau AAT, CIPD ac ILM, gallwch fod yn sicr eich bod yn dysgu at safonau'r diwydiant ac yn cyflawni cymhwyster a gaiff ei gydnabod yn genedlaethol.

Rydym yn cynnig cyrsiau o lefel 1 hyd at lefel 5, sy'n golygu y gallwch gymryd y cam proffesiynol nesaf hwnnw gyda ni, waeth beth yw eich profiad blaenorol neu eich sefyllfa o ran gyrfa ar hyn o bryd.

“

Rwy'n gobeithio cyrraedd rôl Rheolwr Ariannol yn fy ngweithle, ac mae fy nghwrs yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnaf i er mwyn cyflawni hyn. Rwyf wir yn mwynhau arddull rhyngweithiol y tiwtor - mae'n fwy hamddenol na'r ysgol, felly rydych yn teimlo'n fwy cyfforddus yn gofyn cwestiynau ac yn trafod yn y dosbarth.

LARA DENNISON

>> AAT LEFEL 3



	Lefel	BG	C	DC	O
Dyfarniad Mynediad yr AAT mewn Sgiliau Busnes	1			✓	
Dyfarniad Mynediad yr AAT mewn Cadw Cyfrifon	1			✓	
Tystysgrif AAT mewn Cyfrifeg	2			✓	
Diploma AAT mewn Cyfrifeg	3			✓	
Diploma AAT mewn Cyfrifeg Broffesiynol	4			✓	
CILEX Diploma yn y Gyfraith ac Ymarfer - Uned Cyfraith Tir	6			✓	
CILEX Diploma yn y Gyfraith ac Ymarfer - Uned Cyfraith Ewyllysiau ac Olyniaeth	6			✓	
CIPD Diploma Cyswllt CIPD mewn Rheoli Pobl	5		✓		✓
CIPD Tystysgrif Sylfaen CIPD mewn Ymarfer Pobl	3		✓		✓
HNC Busnes	4	✓			
Dyfarniad ILM mewn Sgiliau Tîm ac Arwain	2	✓			
Dyfarniad ILM mewn Arwain a Rheoli	5	✓			



Ar gyfartaledd, mae rheolwyr
prosiectau proffesiynol busnes
ac ariannol yn ennill

£51,480

y flwyddyn

(EMSI, 2021)



aat

CIPD
Approved centre

ilm
Approved
Centre



GOFAL SEILIEDIG AR Y TIR, CEFFYLAU AC ANIFEILIAID

The
British
Horse
Society
Approved Centre

Mae ein cyrsiau gofal anifeiliaid, ceffylau ac astudiaethau tir, sydd wedi'u lleoli ar ein campws Brynbuga gwledig, yn cynnig digonedd o ddewis ar gyfer unigolion sydd wrth eu bodd yn yr awyr agored.

Pa bynnag gwrs rydych chi'n ei ddewis, byddwch yn siŵr o gael digon o brofiad ymarferol, p'un a yw hynny yn ein canolfan anifeiliaid bychan sydd wedi'i hadeiladu'n arbennig, ein canolfan geffylau sydd wedi'i chyfarparu'n llawn, neu ar ein fferm weithio fawr.

Fel Canolfan Hyfforddi ac Asesu Lefel 4 Gymeradwy BHS, gallwch fod yn sicr o dderbyn addysg o safon uchel a mynediad at y cymwysterau sydd eu hangen arnoch chi i ddatblygu yn y diwydiant ceffylau.

Bydd ein hystod o Ddyfarniadau City & Guilds hefyd yn sicrhau eich bod yn gymwys i weithio mewn ystod o swyddi sy'n ymwneud ag astudiaethau'r tir yn ddiogel, ynghyd â'r ardstiad i brofi hynny.





**Cyfartaledd cyflogau nodweddiadol yn
y diwydiant hwn yng Nghymru:**

FFERMWR - £28,000

MILFEDDYG - £31,000

(EMSI, 2021)



	Lefel	B
Diploma City & Guilds, Cynorthwyrwyr Nyrsio Milfeddygol	2	✓
Diploma Lantra mewn Nyrsio Milfeddygol	3	✓
Cymorth Cyntaf Sylfaenol ar gyfer Cŵn a Chathod	-	✓
Datblygu Sgiliau Marchogaeth - Paratoi at Gam 1 BHS	-	✓
Datblygu Sgiliau Marchogaeth - Paratoi at Gam 2 BHS	-	✓
Datblygu Sgiliau Marchogaeth - Paratoi at Gam 3 BHS	-	✓
Paratoi ar gyfer Gofal a Rheolaeth Cam 4 BHS	-	✓
Paratoi ar gyfer Cam 2 Hyfforddiant BHS	-	✓
Cyflwyniad i Glipio Ceffylau	-	✓
Paratoi Ceffylau ar gyfer Cystadleuaeth - Dangos Paratodau ac Edrychiad	-	✓
Dyfarniad City & Guilds mewn Defnyddio Brwsh-dorrwr a Thrimwyr yn Ddiogel	2	✓
Dyfarniad NPTC / City & Guilds mewn Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Gweithrediadau Cysylltiedig	2	✓
Tystysgrif City & Guilds mewn Torri a Phrosesu Coed Bychain	2	✓
Dyfarniad City & Guilds yn y Defnydd Diogel o Offer Taenu â Llaw	2	✓
Dyfarniad City & Guilds mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1)	2	✓
Tystysgrif City & Guilds mewn Chwistrellu Plaladdwyr i Ddŵr neu Wrth Ymyl Dŵr	2	✓
Cyflwyniad i Wyna	-	✓
Cyflwyniad i Arddio	-	✓
Ffermio Tyddyn (Sgiliau Da Byw ac Ystadau)	-	✓

CELF A DYLUNIO, Y CYFRYNGAU, Y CELFYDDYDAU PERFFORMIO A FFOTOGRAFFIAETH

Os ydych chi'n unigolyn creadigol ac yn dymuno gwella eich sgiliau neu ddysgu rhywbeth cwbl newydd, Coleg Gwent yw'r lle perffaith i'ch rhoi ar ben ffordd.

P'un a oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd neu olygu lluniau, gwnio a thecstilau, neu'r celfyddydau perfformio, gallwn gynnig ystod o gyrsgau i'ch galluogi i fwynhau eich diddordeb a gwella eich galluoedd.

Yn ogystal â dysgu sgiliau newydd, byddwch hefyd yn cael cyfle i astudio ochr yn ochr â phobl o'r un anian â chi, gan ddefnyddio llu o offer a thechnoleg. Mae cyrsiau'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn, sy'n golygu eich bod yn cael cyfle i roi cynnig ar ystod o hobiau newydd yn Coleg Gwent!



Trosiant blynyddol
ar gyfer diwydiannau
creadigol yng Nghymru yw

£2.2BN

(CymruGreadigol, 2021)

	Lefel	BG	C	DC	T
Argraffu 3D	-		✓		
Ffotograffiaeth Amgen	-	✓			
Technegau Celf ar gyfer Datblygiad Personol	-			✓	
Cerameg	-		✓		
Gwaith Crosio i Ddechreuwr	-	✓			
Gwaith Crosio Lefel Canolradd	-	✓			
Ymarfer Llesiant Creadigol a'r Celfyddydau	-		✓		
Ffotograffiaeth Ddigidol	-			✓	
Dosbarth Meistr Hedfan Dronau	-		✓		
Trefnu Blodau	-	✓			
Sut i DJ'o gan ddefnyddio Ableton Live	-		✓		
Cyflwyniad i Ffotograffiaeth - Dechreuwr	-	✓			
Gwneud Gemwaith	-		✓		
Y Celfyddydau Perfformio	-		✓		
Ffotograffiaeth	-		✓		
Photoshop i Ddechreuwr	-				✓
Gwneud Printiau	-		✓		
Canu er Pleser	-		✓		
Tecstilau	-		✓		
Defnyddio Adobe Photoshop	-			✓	
Dosbarth Meistr Ffotograffiaeth Colodion Plât Gwlyb	-		✓		

“

Mae'r cwrs gyda'r nos yn ffordd wych o roi cynnig ar hobi newydd. Rwy'n cael modd i fyw yn dysgu sgil newydd ac yn gwneud rhywbeth creadigol yn fy amser hamdden

LAUREN TUCKER

»» **TECSTILAU**

ARLWYO A LLETYGARWCH



Beth bynnag yw eich lefel bresennol o gymhwyster arlwyio, gallwn gynnig ffordd hyblyg i ddysgu a datblygu o fewn eich gyrfa. P'un a ydych yn arbenigo mewn paratoi bwyd neu gyflwyno gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid, gallwn eich helpu i fod yn arbenigwyr yn y diwydiant.

Caiff ein cyrsiau arlwyio a lletygarwch eu cyflwyno'n bennaf oddi ar y safle, drwy NVQs rydych yn eu cyflawni yn eich gweithle. Neu, gallech ddewis astudio un o'n cyrsiau diogelwch bwyd yn y ceginau sydd wedi'u cyfarparu'n llawn ar ein campws yn Crosskeys, sy'n gartref i'n bwyty poblogaidd wedi'i redeg gan fyfyrwyr, Morels.



Y diwydiant
lletygarwch yw'r
4ydd cyflogwr
mwyaf yn y DU, ac
mae'n gyfrifol am

3.2M
0 SWYDDI

(UKHospitality, 2021)



	Lefel	C	O
Gwasanaeth Diod (NVQ)	2		✓
Gwasanaeth Cwsmer (NVQ)	2		✓
Gwasanaeth Cwsmer (NVQ)	3		✓
Diploma mewn Gwasanaeth Cwsmer (NVQ)	3		✓
Diploma Cadw Trefn (NVQ)	2		✓
Gwasanaeth Bwyd a Diod (NVQ)	2		✓
Cynhyrchu Bwyd a Choginio (NVQ)	2		✓
Derbynfa Blaen Tŷ (NVQ)	2		✓
Dyfarniad mewn Diogelwch Bwyd mewn Arlwyio HABC	2	✓	
Dyfarniad mewn Rheoli Diogelwch Bwyd mewn Arlwyio HABC	4	✓	
Rheoli Lletygarwch (NVQ)	4		✓
Gwasanaethau Cegin (NVQ)	2		✓
Coginio Proffesiynol (Coginio a Chwprdd Bwyd) (NVQ)	3		✓
Coginio Proffesiynol (NVQ)	2		✓
Coginio Proffesiynol (NVQ)	3		✓
Coginio Proffesiynol (Teisennau a Melysion) (NVQ)	3		✓

“

Rwyf wedi gweithio yn y maes arlwyio ers 20 mlynedd – roedd ymgymryd â'r cwrs hwn yn ffordd dda o wella fy hun a datblygu. Mae wedi fy helpu i ddysgu mwy am arlwyio ac mae'n gam cadarnhaol tuag at gyrraedd rôl rheoli un diwrnod. Byddwn 100% yn argymhell y cwrs hwn.”

JOHANNA BROWN

» DYFARNIAD HABC MEWN
RHEOLI DIOGELWCH BWYD
MEWN ARLWYO



CYFRIFIADURA A THECHNOLEG DDIGIDOL >>

Mae elfen o TG yn cael ei ddefnyddio gan bron bob busnes modern, felly mae astudio un o'n cyrsiau cyfrifiadura a thechnoleg ddigidol yn golygu y bydd galw mawr am eich gwasanaethau. Mae'r byd digidol yn symud yn gyflym ac yn datblygu trwy'r amser - gallwn eich helpu i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Byddwch yn dysgu mewn ystafelloedd TG sydd wedi'u cyfarparu'n llawn, gyda mynediad at y technolegau, caledwedd

a'r feddalwedd ddiweddaraf. Mae gan ein darlithwyr brofiad ymarferol, sy'n golygu eu bod yn medru trosglwyddo gwybodaeth sy'n hynod berthnasol i'r gweithle.

P'un a ydych yn dymuno arbenigo mewn rhwydweithio, seiberddiogelwch neu raglennu, gallwn gynnig cwrs rhan amser i helpu i roi hwb i'ch dealltwriaeth a magu eich hyder proffesiynol.

	Lefel	BG	DC
Rhwydweithio CISCO - Cyflwyniad i Rwydweithiau CCNA	Proffesiynol		✓
Rhwydweithio CISCO - CCNA 2	Proffesiynol		✓
Hanfodion Seiberddiogelwch	-	✓	✓
Trwsio Cyfrifiadur - Cwrs Hunangymorth	-		✓
Technolegau Digidol HNC	4	✓	
Cyflwyniad i Dechnolegau Cyfrifiadura Cwmwl	-		✓
Cyflwyniad i Raglennu - Dewch yn Godydd	-		✓

“

Ar hyn o bryd, rwy'n gweithio ym maes TG fel dadansoddwr technegol desg wasanaeth ac rwyf eisiau datblygu fy ngyrfa mewn Rhwydweithio. Mae ceisio cydbwyso bywyd gartref â dau o blant wedi bod yn heriol, ond rwyf wedi cael cefnogaeth arbennig gan fy nhwitor sydd bob amser yn hapus i helpu.

DAVID DAVIES
 >> RHWYDWEITHIO
 CISCO - CCNA



Ar gyfartaledd, mae
Peirianwyr TG yn
ennill dros

£30,000

y flwyddyn yng Nghymru.

Ar gyfartaledd, mae
Rheolwyr TG yn ennill

£43,000

y flwyddyn.

(EMSI, 2022)



ADEILADU

Mae ein cyrsiau adeiladu rhan amser yn cynnig rhywbeth at ddant pawb. Mae digon o ddewis ar gyfer unigolion sy'n frwd dros DIY ac sy'n awyddus i wella eu sgiliau gyda chysiau fel Cynnal a Chadw Cartref Sylfaenol a'n cwrs hynod boblogaidd, Merched yn y Diwydiant Adeiladu. Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant adeiladu, p'un a ydych yn dymuno ennill cymhwyster diogelwch at ddibenion cydymffurfio, neu eisiau uwchsgilio drwy gwrw Peirianeg Sifil.

Gyda gweithdai wedi'u cyfarparu'n dda, yn ogystal â dewis o leoliadau hyblyg oddi ar y safle, gallwn fodloni anghenion ystod eang o ddysgwyr. Adeiladu yw'r 5ed diwydiant mwyaf yng Nghymru, felly mae astudio cymhwyster yn y sector llewyrchus hwn yn ddewis ardderchog.



Roedd dros

2500

o swyddi adeiladu
ar gael yng
Nghymru yn 2021

(EMSI, 2022)

Gall Rheolwr Safle
Adeiladu profiadol
ennill hyd at

£47,500

y flwyddyn.

(EMSI, 2022)



	Lefel	BG	DC	O
Adnewyddu Nwy ACS	Proffesiynol		✓	
Gwaith Cynnal a Chadw Tŷ i Ddechreuwr	-		✓	
Peirianeg Sifil BTEC	3		✓	
City & Guilds Diploma mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	3		✓	
City & Guilds / EAL Diploma mewn Gosodiadau Trydanol	3	✓	✓	
Dyfarniadau Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch Site Safety Plus Cskills	-		✓	✓
Cskills Awards Cynllun Hyfforddiant Diogelwch Rheoli Safle (SMSTS)	-		✓	✓
Cskills Awards Cynllun Gloywi Hyfforddiant Diogelwch Rheoli (SMSTS Gloywi)	-		✓	✓
Cskills Awards Cynllun Hyfforddiant Diogelwch Goruchwyliwr Safle (SSSTS)	-		✓	✓
Cskills Awards Hyfforddiant Gloywi Cynllun Diogelwch Goruchwyliwr Safle - Gloywi (SSSTS Gloywi)	-		✓	✓
HNC Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	4		✓	
HNC Peirianeg: Peirianeg Sifil	4		✓	
HND Peirianeg Sifil	5		✓	
HND Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	5		✓	
Rheoli'n Ddiogel IOSH	3		✓	✓
Merched mewn Adeiladu	-		✓	

HYFFORDDIANT AC ADDYSG

Mae cymorth dosbarth mewn ysgolion yn hanfodol er mwyn helpu plant i gyflawni eu potensial llawn. Os yw gweithio mewn rôl gefnogol o ddiddordeb i chi, mae ein cymwysterau addysgu ac addysg yn opsiwn gwyhych.

Gall helpu eraill i ddysgu a llwyddo hyd eithaf eu gallu fod yn werth chweil, a chynnig gyrfa i chi lle mae pob diwrnod yn wahanol! Gallwch ddewis gweithio â phlant ifanc neu gydag oedolion ifanc sydd ar fin mentro i'r byd annibynnol - chi sydd i benderfynu!

Drwy ennill cymhwyster gyda Coleg Gwent, gallwch fanteisio ar ein tiwtoriaid profiadol, grwpiau dysgu bach a chefnogol a chyfleusterau arbennig.



MAE'R GALW AM
GYMORTHYDDION
ADDYSGU YN Y
DYFODOL YN UCHEL
YNG NGHYMRU.

	Lefel	BG	C	DC	T
Tystysgrif CACHE mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion	2			✓	✓
Tystysgrif CACHE mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion	3	✓	✓	✓	✓
Tystysgrif CACHE mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion	4			✓	
Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg (ProCert) mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PcET)	4	✓			
Tystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg (TAR) mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PcET)	4	✓			



Mae dros

16,000

o bobl yng Nghymru wedi'u cyflogi mewn rolau cymorthyddion addysgu – mae hynny 20% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ar gyfartaledd, mae

1,000

o swyddi newydd yn cael eu hysbysebu bob mis yn y sector hwn.

(EMSI, 2022)



PEIRIANNEG A MODUROL

Byddwch yn mireinio eich sgiliau mewn gweithdai o'r radd flaenaf, gyda mynediad at offer peirianyddol ac offer llaw traddodiadol, ynghyd â pheiriannau a reolir gan gyfrifiaduron a phrototeipio cyflym.

Rydym yn cynnig ystod eang o gyrsiau peirianeg a modurol. Rydym yn cynnig ystod o gyrsiau cerbyd trydanol newydd, lle gallwch ddysgu sgiliau cyfoes wrth weithio ar ein cerbydau o'r radd flaenaf, gan gynnwys cerbydau Tesla.

Rydym hefyd yn cynnig cymwysterau ar gyfer cydymffurfio â thystysgrifau MOT yn ogystal ag ystod o gymwysterau IMI a chysiau mewn gwaith paent ac atgyweirio cyrff cerbydau.

“

Rwy'n astudio weldio'n rhan amser, ochr yn ochr â'm cwrs mecaneg llawn amser. Mae nifer o swyddi gwag weldio a chyfleoedd contractio ar gael, ac rwyf eisiau meithrin crefft a sgiliau y gallaf adeiladu gyrfa o'u cwmpas. Mae gan y tiwtoriaid yma agwedd bersonol ac maent yn teilwra'r dysgu i weddu i chi.

CAI GRIFFITHS

» PERFFORMIO GWEITHREDIADAU
PEIRIANNEG (FFABRIGO A WELDIO)



Ar gyfartaledd, mae Peirianwyr Trydanol yng Nghymru yn ennill

£44,700

y flwyddyn.

Mae galw sylweddol am Beirianwyr Mecanyddol yng Nghymru, gyda bron i 3,000 o bobl wedi'u cyflogi yn y rôl hon – mae hynny 14% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

(EMSI, 2022)

	Lefel	C	DC
Cynnal a Chadw Ceir Sylfaenol i Ddechreuwyd	-		✓
Cynnal a Chadw Sylfaenol / Adnewyddu Cerbydau	-	✓	
City & Guilds Dyfarniad mewn Sgiliau Weldio Uwch	2		✓
Dyfarniad City & Guilds a Thystysgrifau mewn Sgiliau Weldio	3		✓
Dyfarniad City & Guilds mewn Rheoli Canolfan Profion MOT	3		✓
Dyfarniad City & Guilds mewn Profion MOT	2		✓
Diploma City & Guilds mewn Atgyweirio Cerbyd Modur wedi Damwain (Corff a Phaent)	3		✓
BTEC Diploma (Technegol) mewn Peirianeg Drydanol/Electronig	3	✓	
BTEC Diploma mewn Peirianeg Atodol (Trydanol)	3	✓	
BTEC Diploma (Technegol) mewn Peirianeg Fecanyddol/Gweithgynhyrchu	3	✓	
BTEC Diploma mewn Peirianeg Atodol (Mecanyddol)	3	✓	
Asesiad MOT Blynnyddol City & Guilds	-		✓
Diploma mewn Technoleg Cynnal a Chadw (AmSgiliau)	1	✓	
EAL Tystysgrif NVQ mewn Ffabrigiad ac Weldio	1		✓
EAL NVQ Diploma PEO (Saerïo a Weldio)	2		✓
Gosod Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan	3	✓	
HNC Peirianeg: Peirianeg Electronig a Thrydanol	4	✓	
HNC Peirianeg: Peirianeg Fecanyddol	4	✓	
HND Peirianeg Electronig a Thrydanol	5	✓	
HND Peirianeg Fecanyddol	5	✓	
Dyfarniad City & Guilds / IMI mewn Cynnal a Chadw Rheolaidd Cerbydau Hybrid/Trydan	1, 2 neu 3	✓	
Tystysgrif IMI Technegydd Archwilio Cerbydau Ysgafn	-		✓
Diploma IMI mewn Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn	1	✓	
Diploma IMI mewn Egwyddorion Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Beiciau Modur	2	✓	
Diploma IMI mewn Egwyddorion Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Beiciau Modur	3	✓	
Cyflwyniad i Wella Busnes	-	✓	
Cyflwyniad i Fathemateg ar gyfer Peirianeg	-	✓	
Cyflwyniad i Egwyddorion Mecanyddol	-	✓	

SAESNEG I SIARADWYR IEITHOEDD ERAILL (ESOL)

Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf bydd ein cyrsiau yn helpu i wella eich sgiliau Saesneg.

Gallai hyn eich helpu i ddod o hyd i gyflogaeth, i gyfathrebu ag ysgol eich plentyn, y Ganolfan Byd Gwaith neu'ch meddyg, neu ddim ond gwneud eich bywyd yn y DU ychydig yn haws.

AR EIN CYRSIAU GALLWCH:

- ✓ Wella eich Saesneg - siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu, gramadeg a geirfa
- ✓ Dysgu sut i ysgrifennu yn ffurfiol ac anffurfiol wrth lunio negeseuon e-bost, CVs a cheisiadau am swydd
- ✓ Dysgu am fywyd yn y DU
- ✓ Dysgu am y sgiliau gwaith rydych eu hangen i gael swydd neu ddychafiad yn y Gwaith
- ✓ Dysgu am fathemateg gan gynnwys mesur, cyllidebu a sut i ddarllen amserlenni

	Lefel	DC
ESOL - Rhagarweiniol	-	✓
ESOL (dyddiad dechrau a gorffen hyblyg)	Lefel Mynediad 1, 2 neu 3	✓
ESOL (dyddiad dechrau a gorffen hyblyg)	1 neu 2	✓
Sgiliau Bywyd ESOL (Siarad a Gwrando)	Lefel Mynediad 1, 2 neu 3	✓
Sgiliau Bywyd ESOL (Siarad a Gwrando)	1 neu 2	✓
Sgiliau Bywyd ESOL (Ysgrifennu)	Lefel Mynediad 1, 2 neu 3	✓
Sgiliau Bywyd ESOL (Ysgrifennu)	1 neu 2	✓



Os hoffech gofrestru ar un o'n cyrsiau, rhaid i chi yn gyntaf ymweld â'n Hwb Reach+ yn Llyfrgell Ganolog, Casnewydd. Yr Hwb yw'r pwynt canolog i unrhyw un sy'n dymuno astudio ESOL. Bydd y tîm yn asesu pob person ac yn eu cyfeirio at y cwrs a'r cymorth iawn. Gellir trefnu apwyntiadau drwy ffonio'r Hwb ar 01633 414917 neu gallwch alw hebio'r llyfrgell. Mae hon yn rhan o Brosiect Integreiddio Ffoduriaid ReStart.



Ariennir yn Rhanol gan
Llywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Caiff y prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoduriaid ei ariannu'n rhanol drwy Gronfa Lloches, Ymfudo ac Integreiddio yr Undeb Ewropeaidd. Gwneud rheoli llif ymfudo'n fwy effeithiol ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

The ReStart: Refugee Integration project is part-funded through the European Union Asylum Migration Integration Fund. Making management of migration flows more efficient across the European Union.

TGAU

A yw'r ffaith nad ydych yn meddu ar radd C mewn TGAU Mathemateg a Saesneg yn rhwystr yn eich gyrfa? Mae nifer o gyrsiau yn y coleg a'r brifysgol, yn ogystal â chyflogwyr, yn gofyn i chi feddu ar radd C gan fod galw cynyddol am swyddi sgiliau uwch yn yr economi.

Neu efallai eich bod yn rhiant sydd eisiau gwella eich sgiliau er mwyn helpu gyda gwaith cartref eich plentyn?

Beth bynnag sy'n eich cymell, gallwch astudio i gyflawni eich TGAU ar sail rhan amser hyblyg, gan ei wneud yn hawdd astudio o amgylch ymrwymadau eraill.

	Lefel	BG	C	DC	T
TGAU Saesneg Iaith	2	✓	✓	✓	✓
TGAU Mathemateg - Haen Uwch	2	✓	✓	✓	✓

“

Astudiais fy mhynciau TGAU ochr yn ochr â'm cwrs cyfrifeg. Nid oedd gen i TGAU ffurfiol, ac roeddwn i angen cymhwyster Mathemateg a Saesneg er mwyn astudio fy nghwrs TAR, oherwydd fy mod yn dymuno mynd i addysgu. Roedd ansawdd yr addysgu ar y cyrsiau yn ardderchog.

LIUDMYLA SVIZINSKA

» TGAU



TRIN GWALLT A THERAPI HARDDWCH

Os oes gennych ddiddordeb mewn gyrfa yn y sector gwallt a harddwch sy'n newid o hyd, gallwn ddarparu dewis eang o gyrsiau i sicrhau eich bod yn cael y cymwysterau sydd eu hangen arnoch, o sgiliau trin gwallt sylfaenol i wybodaeth therapi cyflenwol fodern.

Mae ein cyrsiau trin gwallt a therapi harddwch hefyd yn cynnig llawer mwy, gydag ystod eang o dechnegau penodol a hyfforddiant ar gael i'ch helpu i arbenigo yn y maes sydd o ddiddordeb i chi yn y diwydiant sy'n tynnu eich sylw fwyaf.

Mae cyrsiau ar gael ar lefelau 1, 2 a 3, sy'n golygu bod rhywbeth at ddant pawb.

“

Rwy'n dod i'r coleg 1 diwrnod yr wythnos - rwyf wastad wedi arbrofi gyda fy ngwallt ac wedi bod eisiau dysgu'r wybodaeth sylfaenol i drin gwallt o ddifrif ar gyfer fy rheulu a ffrindiau. Mae gen i 2 o blant ac rwy'n gweithio'n rhan amser hefyd ond rwy'n gallu rheoli pethau erbyn hyn gan fod gen i drefn. Roeddwn yn poeni mai fi fyddai'r hynaf, ond nid yw hynny'n wir o gwbl. Mae'n braf cael gwneud rhywbeth sy'n fy mhlesio i.

REBECCA STEPHENS

>> GWASANAETHAU TRIN GWALLT LEFEL 2





Mae

60%

o bobl sy'n gweithio
yn y diwydiant hwn yn
hunangyflogedig.

(Ystadegau Diwydiant Allweddol NHBF 2020)



Mae gan fusnesau gwallt a
harddwch **gyfraddau goroesi**
uwch ar ôl 5 mlynedd na
sawl sector arall.

	Lefel	BG	C	DC
Barbro i Ddechreuwy	-			✓
Chwythsychu	-	✓		
Diploma City & Guilds mewn Barbro	2	✓		✓
Diploma City & Guilds mewn Barbro	3	✓		
Diploma City & Guilds mewn Therapi Harddwch	2		✓	✓
Diploma City & Guilds mewn Therapi Harddwch	3		✓	
Trin Gwallt City & Guilds	1		✓	
Diploma City & Guild mewn Trin Gwallt	2		✓	
Diploma City & Guilds mewn Trin Gwallt	3	✓	✓	
Torri Gwallt (Cyflwyniad)	-			✓
Gwasanaethau Trin Gwallt	2			✓
Gwallt i Fyny	-	✓		
Amrannau (Parhaol)	3			✓
Colur (NVQ)	2		✓	
Triniaeth Dwylo/Traed	"		✓	
Permio (Cyflwyniad)	-	✓		
Dyfarniad VTCT mewn Triniaethau i'r Amrannau a'r Aelïau	2	✓		
Dyfarniad VTCT mewn Estyniadau Amrannau	3	✓		
Dyfarniad VTCT mewn Dylunio Celf Corff	-		✓	
Dyfarniad VTCT mewn Crefft Colur Ffotograffig	2		✓	
Tystysgrif VTCT mewn Tylino'r Corff a Therapi Cerrig	3		✓	
Diploma VTCT mewn Therapiau Cyflenwol	3		✓	
Celfyddyd Trin Gwallt a Cholur y Cyfryngau VTCT	2		✓	
Dyfarniad VTCT mewn Harddu Ewinedd gan ddefnyddio Gel Uwchfioled	3	✓		
Dyfarniad Rhoi Colur Sylfaenol VTCT	1	✓		
Diploma VTCT mewn Technoleg Ewinedd	2			✓
Diploma VTCT mewn Technoleg Ewinedd	3	✓		
Diploma VTCT mewn Colur Theatrïg ac i'r Cyfryngau	3		✓	

IECHYD A DIOGELWCH, CWNSELA A GOFAL

Gall ein cyrsiau iechyd a diogelwch, cwnsela a gofal ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch chi i lwyddo mewn sawl gyrfa wahanol.

Mae cyrsiau cwnsela wedi'u hachredu gan AIM ar gael ar lefelau 2, 3 a 4, yn ogystal ag amrywiaeth o hyfforddiant cymorth cyntaf a chysiau ar gyfer unigolion sydd eisiau gweithio yn y sector gofal.

P'un a ydych eisoes yn gweithio mewn rôl ac yn ceisio dilyniant personol neu os ydych yn dymuno newid eich gyrfa'n llwyr, gall ein cyrsiau rhan amser hyblyg roi'r cymhwyster sydd ei angen arnoch chi.



Mae disgwyl y bydd

764

o swyddi
cwnselwyr gwag ar gael yng
Nghymru eleni...

...mae hynny

42%

yn uwch na'r
cyfartaledd
cenedlaethol.

(EMS, 2022)

	Lefel	BG	C	DC	T	B
Agored Cymru Diploma mewn Cymorth Gofal Iechyd Clinigol	3				✓	
Tystysgrif Sgiliau Cwnsela AIM	2	✓		✓		
Tystysgrif Sgiliau Cwnsela AIM	3	✓		✓		
Diploma AIM mewn Ymarfer Cwnsela	4			✓		
Cyflwyniad GIG Cymru Gyfan i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd	-	✓				
Cymorth Bywyd Sylfaenol a Defnydd Diogel o Ddiffibriliwr Allanol Awtomataidd	2		✓			
Iaith Arwyddion Prydain	L3 Mynediad		✓			
Cskills Awards Site Safety Plus Health and Safety Awareness	-			✓		
Iechyd a Gofal Cymdeithasol City & Guilds/CBAC: Craidd	2	✓	✓	✓		
Sgiliau Gwaith Lefel Mynediad	-		✓			
HABC Dyfarniad mewn Cymorth Cyntaf yn y Gwaith	3			✓		
Dyfarniad mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith HABC	3			✓		
Dyfarniad HABC mewn Cyflwyniad i Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl	2		✓			
Dyfarniad HABC mewn Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl	3		✓			
Codi a Chario	-				✓	
Cwrs Paratoi ar gyfer Mynediad i Nyrsio	-	✓	✓	✓	✓	
CBAC / City & Guilds Gofal, Chwarae, Dysg a Datblygiad Plant: CRAIDD	2			✓		
Diploma YMCA mewn Ymarfer Corff a Hyfforddiant Ffitrwydd	2					✓



SGILIAU BYW'N ANNIBYNNOL (ILS)

Rydym yn cynnig lluo o gyrsiau sy'n addas i fyfyrwyr o bob gallu ac o bob cefndir academiaidd. Fe wnawn eich cynorthwyo i ddysgu rheoli eich arian eich hun, coginio eich bwyd eich hun, cynllunio eich gyrfa eich hun a byw bywyd annibynnol yn eich cymuned.

Ynghyd â dysgu sgiliau ymarferol, byddwn yn eich helpu i gynyddu eich hunanhyder i'ch cynorthwyo i fyw bywyd gweithgar. Byddwch yn astudio cymysgedd o sgiliau galwedigaethol a chreadigol fel celf a chrefft, coginio, garddio a TG, ynghyd â pharhau i wella eich llythrennedd, rhifedd

a sgiliau hanfodol eraill. Byddwch hefyd yn mynd ar deithiau ac ymweliadau i leoliadau megis amwynderau, amgueddfeydd ac atyniadau twristiaeth lleol ynghyd â chyfranogi mewn gweithgareddau codi arian a menter.

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol gan ystyrir anghenion bob dysgwr ar sail unigol; byddwn yn asesu eich anghenion unigol i sicrhau eich bod yn cofrestru ar y cwrs iawn i chi. Byddwch yn cael y cyfle i fynychu rhaglen drosglwyddo lle gallwch gwrdd â'r tiwtoriaid, mynychu rhai gwersi a dod i adnabod y coleg cyn i chi ddechrau.



“

Mae'n goleg da ac mae rhywun yn dysgu drwy'r adeg. Rydw i wedi magu hyder yn y dosbarth ac rydym yn cael cerddoriaeth ar ddydd Mercher. Rydym yn gwrando ar gerddoriaeth ac yn chwarae offerynnau. Mi fydda i'n gwneud te a choffi yng nghaffi'r Coleg ac yn gweithio ar y til. Yn y caffi yr ydw i'n hoffi gweithio fwyaf.

TASLIMA BEGUM

» SGILIAU BYW'N ANNIBYNNOL

	Lefel	B
Sgiliau Oedolion (Dydd Gwener ILS)	Mynediad	✓
Sgiliau Oedolion (ILS Dydd Gwener)	Mynediad	✓
Sgiliau Oedolion (ILS Dydd Mercher)	Mynediad	✓

LLWYBR AT RADD NEU BRIFYSGOL

(MYNEDIAD I ADDYSG UWCH)

Mae gradd brifysgol yn gyraeddadwy hyd yn oed os nad oes gennych unrhyw gymwysterau blaenorol. Bydd cwrs Mynediad at Addysg Uwch (AU) yn eich helpu i ddatblygu'r wybodaeth, yr hyder a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i'ch paratoi at y brifysgol.

Efallai eich bod yn teimlo ychydig yn nerfus ynghylch dychwelyd i astudio - yn enwedig os nad ydych wedi bod mewn dosbarth ers peth amser. Mae ein tiwtoriaid yn ymwybodol o hyn ac yn ei gymryd i ystyriaeth yn eu haddysgu; ni fyddwn yn ceisio eich baglu, nac yn eich profi ar bethau rydych wedi'u hanghofio flynyddoedd yn ôl. Bwriad y cwrs yw eich herio chi, ond yn y pen draw, y nod yw eich helpu i lwyddo.



FELLY, PAM ASTUDIO LLWYBR AT RADD?

1 Gwella Rhagolygon

Bydd yn agor drysau newydd, ei gwneud hi'n bosibl i chi fod yn llwyddiannus a'ch helpu chi i gael yr yrfa ddelfrydol.

2 Datblygu Sgiliau Hanfodol

Mae'n profi bod gennych sgiliau gwerthfawr megis astudio'n annibynnol a chwrdd â therfynau amser.

3 Dangoswch Eich Gallu

Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn gofyn am radd, mae'n dangos eich bod yn gymwys.

4 Profi eich hun

Mae'n profi y gallwch ymrwymo i rywbeth, ymdopi â gwaith caled a mynd pob cam o'r ffordd.

5 Profiad Gwych

Yn ogystal â rhoi cymhwyster i chi, byddwch yn ennill lluo o brofiadau a byddwch yn sicr yn gwneud cysylltiadau i'ch helpu yn y dyfodol.



	Lefel	BG	DC
Mynediad i Addysg Uwch - Plismona a Gwasanaethau Cyhoeddus - (Yn dibynnu ar Ddilysiad)	3	✓	
Mynediad i Addysg Uwch - Nyrsio, Astudiaethau Meddygol a Gofal Iechyd	3		✓

CHWARAEON, FFITRWYDD AC IECHYD

Os ydych chi'n frwd dros chwaraeon a ffitrwydd, rydych wedi dod i'r lle cywir!

Pa bynnag faes rydych chi'n dymuno arbenigo ynddo, gallwn gynnig cwrs er mwyn magu'r gallu a'r wybodaeth ynoch chi i adeiladu gyrfa yn y maes hwn. O gyrsiau hyfforddwr personol neu gyfarwyddwr ymarfer corff grŵp, i dylino chwaraeon ac ymarferion corff ar eich eistedd, rydym yn cynnig ystod eang o opsiynau.

Y gampfa, sydd wedi'i chyfarparu'n dda, ar ein campws ym Mrynbuga yw'r lleoliad delfrydol i ddysgu a datblygu, gan eich helpu i gyflawni eich nodau gyrfaol, ffitrwydd neu bersonol. Yn ogystal â hynny, mae cyrsiau'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn ar amseroedd a dyddiadau cyfleus, sy'n golygu bod y cam nesaf yn agosach nag erioed!

“

Mae'r cwrs yn wych, ac mae'n gwbl wahanol i'r ysgol. Mae pawb yn oedolyn sydd eisiau cyflawni rhywbeth, ac mae popeth yn hamddenol ond yn brysus ar yr un pryd! Roedd meddwl am fod yn fyfyrwr hyn yn frawychus, ond o fewn ychydig ddiwrnodau roeddwn wedi gwneud llawer o ffrindiau. Mae'r tiwtoriaid yn rhagorol - maent eisiau i chi gyflawni eich nodau, ac mae cael campfa gyda'r holl offer yn fantais enfawr!

ROBIN HAMMET

» HYFFORDDIANT PERSONOL LEFEL 3



	Lefel	BG	C	T	B
Teitl y Cwrs ar gyfer Prosbectws	2				
YMCA Gwobr mewn Cyfarwyddo Hyfforddiant Pwysau Tegel	2				✓
Dyfarniad YMCA mewn Hyfforddi Ffitrwydd (Ymarfer Corff i Gerddoriaeth)	2				✓
Dyfarniad YMCA mewn Cyflwyno Ymarfer Corff mewn Cadair	2				✓
Dyfarniad YMCA mewn Hyfforddi Ffitrwydd (Ymarfer Corff i Gerddoriaeth)	2			✓	
Dyfarniad YMCA mewn Arwain Ymarfer Grŵp - Hyfforddiant Cylchol	2			✓	
Dyfarniad YMCA mewn Arwain Ymarfer Grŵp - Ymarfer Corff i Gerddoriaeth - Rhydd	2				✓
Dyfarniad YMCA mewn Arwain Ymarfer Grŵp - Ymarfer Camu i Gerddoriaeth	2			✓	
Dyfarniad YMCA mewn Arwain Ymarfer Grŵp - Ymarfer Corff gyda Dŵr	2				✓
Dyfarniad YMCA mewn Seiclo Grŵp Dan Do	2				✓
Dyfarniad YMCA mewn Ymarfer Rhaglennu a Goruchwylio gyda Chleientiaid Anabl	3				✓
Dyfarniad YMCA mewn Addasu Ymarfer Corff ar gyfer Pobl Hŷn sy'n Annibynnol Actif	3				✓
Dyfarniad YMCA mewn Addasi Ymarfer Corff i Gleientiaid Cyn ac Ôl-geni	3				✓
YMCA Tystysgrif Ddwys mewn Hyfforddwr Ffitrwydd	2				✓
Tystysgrif YMCA mewn Therapi Tylino Chwaraeon	4				✓
YMCA Tystysgrif mewn Hyfforddwr Ffitrwydd	2	✓	✓		✓
Tystysgrif YMCA mewn Therapi Tylino Chwaraeon	4				✓
Tystysgrif YMCA mewn Rheoli Pwysau ar gyfer Unigolion sy'n Ordeu neu sydd â Diabetes Mellitus a/ neu Syndrom Metabolig	4				✓
Tystysgrif YMCA mewn Rhaglennu Gweithgaredd Corfforol ar gyfer Unigolion gyda Phoen yn Rhan Isaf eu Cefn	4				✓
Diploma YMCA mewn Atgyfeirio Ymarfer Corff	3				✓
Diploma YMCA mewn Therapi Tylino Chwaraeon	3				✓
Diploma YMCA mewn Hyfforddiant Personol (Ymarferydd)	3	✓	✓		✓
Diploma YMCA mewn Addysgu Pilates	3			✓	



Mae Hyfforddwr Personol hunangyflogedig yn ennill oddeutu

£20 - £40 AM SESIWN UN AWR. (Careers Wales, 2022)



YMGYSYLLTU Â CHYFLOGWYR

» CYLLID, HYFFORDDIANT A PHARTNERIAETHAU

Ein nod yw ceisio cefnogi twf economaidd lleol, bywiogi ein cymunedau busnes lleol a hyrwyddo cyfleoedd gwaith amrywiol i'n dysgwyr. Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant i ddatblygu cwricwlwm sy'n creu myfyrwyr brwd, medrus sy'n barod am y byd gwaith, gan fwydo i'r gronfa ddoniau.

P'un a ydych eisiau hyfforddiant i'ch staff, yn ceisio canfod prentis neu'n chwilio am unigolion ifanc addawol i lenwi bwlch sgiliau, wrth weithio gyda ni gallwch wneud defnydd o ystod eang o wasanaethau a buddion.



HYFFORDDIANT

Gallwch fodloni'ch gofynion hyfforddiant drwy ystod eang o gyrsgau cyhoeddus sy'n cael eu trefnu drwy gydol y flwyddyn. Methu â dod o hyd i'r hyn roeddech yn chwilio amdano? Gallwn gynnig cyrsiau hyfforddi penodol ar gyfer nifer o staff, er mwyn bodloni anghenion eich busnes.



CYLLID

Gallwch gael mynediad i gynlluniau cyllido'r llywodraeth gyda Coleg Gwent gan gynnwys Cyfrifon Dysgu Personol, Uwchsgilio@Gwaith a chyllid Prentisiaethau a hwyluso.



PARTNERIAETHAU

Dewch i gael sgwrs am yr Addewid Partneriaeth. P'un a ydych angen ymdrin â phrinder sgiliau, yn gallu helpu i gyfoethogi ein cwricwlwm neu'n gallu cynnig sgwrs fydd yn ysbrydoli, gallwch ychwanegu gwerth sylweddol i'n dysgwyr yn ogystal â'ch diwydiant.

